



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Prince Llewellyn Farm

Treharris

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

6/9/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Prince Llewellyn Farm

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	27/7/21
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae Prince Llewellyn Farm yn arbenigo mewn darparu gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu y mae eu hanghenion wedi'u hasesu fel rhai cymhleth. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda gyda threfniadau llywodraethu da ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol. Mae dogfennau gofal yn fanwl ac yn amlygu'n glir ganlyniadau personol y bobl a'r ffyrdd gorau o'u cyflawni. Gwelsom fod angen gwelliannau i'r broses adolygu er mwyn sicrhau bod dogfennau gofal y bobl yn cael eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo bywydau egniol, annibyniaeth a dewis. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n cynnwys gweithgareddau galwedigaethol a hamdden yn ogystal â chymryd rhan mewn tasgau domestig o gwmpas y cartref. Mae'r bobl yn elwa o fyw mewn amgylchedd croesawgar sy'n cael ei gynnal i safon uchel.

Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu sy'n hyrwyddo arferion diogel ac mae proses recriwtio ddiogel ar waith. Mae rhaglen barhaus o hyfforddiant a datblygiad ar gael i weithwyr gofal a chânt eu goruchwyllo a'u harfarnu'n rheolaidd gan y tîm rheoli.

Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom weithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Darparodd y bobl y siaradwyd â nhw adborth canmoliaethus ynghylch y gweithwyr gofal a safon y gofal a'r cymorth a gânt. Dywedodd perthnasau'r bobl wrthym eu bod yn hynod hapus gyda'r gefnogaeth a ddarperir a dull gweithredu gofalgar y staff, a defnyddio geiriau fel “*ardderchog*” a “*hyfryd*” i'w disgrifio.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud dewisiadau ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach yn rhan o'r broses cynllunio gofal. Gwelsom fod gan y bobl gynlluniau gweithgaredd unigol ar waith a oedd yn nodi gweithgareddau o ddiddordeb iddynt. Mae cynlluniau rheoli ac asesiadau risg ar waith i sicrhau bod gweithgareddau a gyflawnir yn cael eu gwneud yn ddiogel.

Mae amgylchedd dymunol yn cefnogi llesiant y bobl. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac mae'n lân ac yn daclus drwyddo draw. Mae wedi'i ddodrefnu'n addas ac wedi'i addurno'n dda. Mae offer, cyfleusterau a chyfleustodau yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd i sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal. Mae gerddi allanol y cartref yn darparu gofod y gall y bobl ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau neu ymlacio.

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth bod unrhyw bryderon, digwyddiadau/damweiniau, a materion diogelu yn cael eu hadrodd i'r asiantaethau perthnasol yn ôl yr angen. Mae polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg a chynlluniau rheoli yn nodi strategaethau ar gyfer cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu gan gynnwys y broses ar gyfer codi pryderon.

Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol y bobl yn amlinellu eu hanghenion gofal a chymorth. Maent hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn megis hanes personol, hoff a chas bethau pobl a sut maent yn cyfathrebu. Gwnaethom archwilio nifer o gynlluniau personol a chanfod eu bod yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y ffyrdd gorau o gefnogi'r person. Canfuom fod rhai cynlluniau gan gynnwys cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn cael eu dyfeisio gan ddefnyddio dull tîm amlddisgyblaethol. Gwneir hyn i sicrhau bod y cymorth y mae pobl yn ei dderbyn yn benodol i'w hanghenion. Mae cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn amlinellu cyfres o ymatebion rhagweithiol y gall gweithwyr gofal eu defnyddio i reoli ymddygiadau heriol. Mae asesiadau risg yn rhoi trosolwg o ddulliau y gellir eu defnyddio i amddiffyn pobl rhag niwed. Mae angen datblygu'r broses ar gyfer adolygu dogfennau gofal ymhellach. Nid yw pob asesiad risg a chynllun cymorth wedi'u hadolygu yn unol â'r rheoliadau. Gwnaethom ddweud wrth y darparwr fod hwn yn faes i'w wella y byddwn yn ei adolygu yn ein harolygiad nesaf.

Gwelsom y bobl yn cael eu cefnogi i fynychu gweithgareddau yn y gymuned. Roedd un person yn cael ei gefnogi i ymweld â thafarn leol am gêm o bŵl. Roedd person arall yn cael ei gefnogi i fynd i brif swyddfa'r darparwr lle mae'n helpu gyda rhywfaint o waith gweinyddol. Yn ogystal â'r gymuned, mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref. Mae tyddyn yn gysylltiedig â'r cartref a ddefnyddir i dyfu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau. Gall y bobl ddefnyddio'r cyfleuster hwn i gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio. Mae amserlenni gweithgareddau dyddiol yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl yn ei fwynhau ac yn manylu ar yr hyn y maent yn ei wneud o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl y siaradom â nhw eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Dywedodd un person, *"Dwi wedi bod i sioe Motown, roedd yn dda iawn"*.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl trwy gydol ein harolygiad. Mae rhai o'r gweithwyr gofal y siaradwyd â nhw wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn ac maent yn gyfarwydd iawn ag anghenion ac arferion y bobl. Dywedodd person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym *"Mae'r staff yn neis iawn; maen nhw'n fy helpu gyda phethau ac yn mynd â fi o gwmpas y lle"*. Dywedodd perthynas i berson sy'n defnyddio'r gwasanaeth, *"Mae'r gofal yn ardderchog, ac mae'r staff yn ddymunol iawn"*.

Mae meddyginiaeth yn cael ei storio yn ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Mae siartiau cofnodi meddyginiaeth yn gywir. Mae hyn yn awgrymu bod pobl yn derbyn eu meddyginiaeth ar yr amser cywir. Mae gan y bobl asesiadau risg meddyginiaeth a chynlluniau rheoli, a chynhelir archwiliadau rheolaidd i nodi unrhyw anghysondebau. Mae gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant meddyginiaeth ac mae 'hyrwyddwr meddyginiaeth' dynodedig sy'n gyfrifol am archebu meddyginiaeth pobl gan sicrhau bod cyflenwadau da yn cael eu cynnal yn y gwasanaeth.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn elwa ar amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n groesawgar. Mae ardaloedd cymunol yn lân ac yn gyfforddus. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi'r bobl yn y cartref. Roeddent yn ymddangos yn fodlon ac yn hamddenol, a oedd yn dangos eu bod yn hapus â'r amgylchedd. Mae'r gweithwyr gofal yn glanhau'r cartref yn rheolaidd i gynnal safonau hylendid da. Mae'r gegin wedi derbyn sgôr o bedwar gan yr asiantaeth safonau bwyd sy'n golygu bod systemau hylendid a diogelwch bwyd da ar waith. Mae gan y bobl fynediad i nifer o gyfleusterau ystafell ymolchi a chawodydd cymunol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae ystafelloedd gwely'r bobl o faint da ac â gwedd bersonol iddynt yn ôl eu dewis.

Mae yna dir sylweddol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda sy'n hygyrch i'r bobl ei ddefnyddio os dymunant. Wedi'i leoli ar y tir mae tŷ haf y gall y bobl ei ddefnyddio ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ymlacio. Mae yna dyddyn y gall y bobl ei gyrchu. Yma, gall y bobl fwynhau gweithgareddau garddio a oruchwylir gan aelod o staff ymroddedig.

Mae'r amgylchedd, ei offer a'i gyfleusterau yn ddiogel i'r bobl eu defnyddio. Mae tystysgrifau diogelwch ar gyfer cyfleustodau fel nwy a thrydan yn ogystal â nodweddion diogelwch tân ar waith. Gwelsom dystiolaeth fanwl o wiriadau a gynhaliwyd gan y gweithwyr gofal gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân a dŵr. Mae sylweddau peryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel a manau cyfyngedig yn cael eu gadw dan glo.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae mesurau llywodraethu a sicrhau ansawdd da ar waith. Mae polisïau a gweithdrefnau yn hyrwyddo arferion diogel. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u halinio â deddfwriaeth genedlaethol a chanllawiau arferion gorau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau gwiriadau i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni ei amcanion a bod y bobl yn hapus â safon y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau adolygiadau ansawdd gofal rheolaidd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o ansawdd da ac yn ddiogel. Mae cryfderau'r gwasanaeth ac unrhyw feysydd y gellir eu datblygu hefyd yn cael eu hystyried yn yr adolygiad o ansawdd gofal. Mae'r datganiad o ddiben cyfredol yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac mae Canllaw Defnyddiwr sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'r bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol yn eu rolau. Rhoddodd y gweithwyr gofal y siaradwyd â nhw adborth cadarnhaol ar ddarpariaeth hyfforddiant y gwasanaeth. Dywedodd un gweithiwr gofal, *“Mae'r hyfforddiant yn dda, byddwch yn cael cyfnod sefydlu pan fyddwch chi'n dechrau, yna hyfforddiant gloywi blynyddol. Mae gennym hyfforddiant arbenigol pan fo angen. Dwi wedi cwblhau hyfforddiant diabetes yn ddiweddar”*. Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddi'r gwasanaeth sy'n dangos ei fod yn cydymffurfio 97% â gofynion hyfforddiant craidd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Maent hefyd yn cael arfarniad blynyddol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod materion sy'n gysylltiedig â gwaith ac i adlewyrchu ar eu perfformiad. Dywedodd y gweithiwr gofal wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi yn ei rôl, a dywedodd un arall *“Mae'r rheolwr yn hyfryd. Hapus i dderbyn ein cyngor a'n barn. Mae hi'n cadw at ei gair.”*

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu proses recriwtio ddiogel. Mae pob gweithiwr gofal sydd newydd ei benodi yn cael cyfres o wiriadau i sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir a'u bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae rhaglen sefydlu strwythuredig lle cynigir cyfleoedd hyfforddi a chysgodi. Dywedodd y gweithwyr gofal y siaradwyd â nhw ar ddiwrnod ein harolygiad wrthym fod lefelau staffio'r gwasanaeth wedi bod yn isel, sydd wedi arwain at ostyngiad yn ysbryd y tîm. Gwnaethom drafod hyn â'r tîm rheoli a ddywedodd wrthym eu bod wedi recriwtio sawl gweithiwr gofal newydd sy'n mynd drwy'r broses sefydlu ar hyn o bryd ac a fyddai ar gael i weithio yn y gwasanaeth yn y dyfodol agos.

Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
16	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 16(1). Mae hyn oherwydd nad yw rhai asesiadau risg a chynlluniau cymorth wedi'u hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol o dri mis.	Newydd

Dyddiad cyhoeddi 19/10/2022